

DYDDIAD

20XX

-----

## TRWYDDED I DDEFNYDDIO

yn ymwneud â'r ardal a adnabyddir fel Traeth Abermaw

rhwng

CYNGOR GWYNEDD (1)

A

I'W GADARNHAU (2)

## **PARTIÖN**

- (1) **CYNGOR GWYNEDD** o Swyddfeydd Y Cyngor, Stryd Y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH (**Trwyddedwr**).
- (2) **I'W GADARNHAU** (**Trwyddedai**).

## **TELERAU Â GYTUNIR**

### **1. DEHONGLIADAU**

Mae'r diffiniadau a'r rheolau dehongli yn berthnasol yn y drwydded hon. Os oes unrhyw amheuan yn codi wrth ddehongli, dylid dilyn y diffiniadau o'r fersiwn Saesneg o'r drwydded.

#### **1.1 Diffiniadau:**

**Eiddo:** rhan o ardal y traeth yn Abermaw a ddangosir wedi ei amlinellu yn goch ar y Cynllun.

**Awdurdod Cymwys:** unrhyw ymgymwrwr statudol neu unrhyw awdurdod cyhoeddus lleol statudol neu awdurdod arall neu gorff rheoleiddio neu unrhyw lys barn neu adran lywodraeth neu unrhyw un ohonynt neu unrhyw un o'u swyddogion wedi eu hawdurdodi ganddynt yn briodol.

**Oriau Dynodedig:** Rhwng 10:00am a 5:00pm saith diwrnod yr wythnos neu unrhyw ddiwrnodau eraill y gall y Trwyddedwr yn ôl ei ddisgresiwn llwyr eu penderfynu ar ôl rhoi 5 diwrnod o rybudd i'r Trwyddedai.

**Ffi y Drwydded:** swm o **XXXX** O BUNNOEDD (£**XXXX**)

**Dyddiad Cychwyn Ffi'r Drwydded:** 1af Ebrill 2026

**Cyfnod y Drwydded:** y cyfnod o ac yn cynnwys 1af Ebrill 2026 hyd at y dyddiad y pennir y drwydded hon yn unol â chymal 4.

**Caniatâd Angenrheidiol:** pob caniatâd cynllunio a phob caniatâd, trwydded, caniatâd, tystysgrif, awdurdodiad a chymeradwyaeth arall, boed o natur gyhoeddus neu breifat, a fydd yn ofynnol gan unrhyw Awdurdod Cymwys ar gyfer y Defnydd a Ganiateir.

**Defnydd a Ganiateir:** **i'w gadarnhau.**

**Cynllun:** y cynllun ynghlwm â'r drwydded hon wedi ei farcio "Cynllun y Drwydded" (**union leoliad i'w gadarnhau gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus**).

**TAW:** treth ar werth sy'n daladwy o dan Ddeddf Treth ar Werth 1994 ac unrhyw dreth amnewid debyg ac unrhyw dreth ychwanegol debyg.

- 1.2 Ni fydd penawdau'r cymalau, yr Atodlen a'r paragraffau yn effeithio ar ddehongliad y drwydded hon.
- 1.3 Mae **person** yn cynnwys person naturiol, corff corfforaethol neu anghorfforedig (p'un a oes ganddo bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio).
- 1.4 Mae'r Atodlen yn rhan o'r drwydded hon a bydd yn weithredol fel pe bai wedi'i nodi'n llawn yng nghorff y drwydded hon. Mae unrhyw gyfeiriad at y drwydded hon yn cynnwys yr Atodlen.
- 1.5 Oni bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog ac yn y lluosog byddant yn cynnwys yr unigol.
- 1.6 Oni bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd cyfeiriad at un rhyw yn cynnwys cyfeiriad at y rhywiau eraill.
- 1.7 Mae cyfeiriad at gyfreithiau yn gyffredinol yn gyfeiriad at bob cyfraith uwch-genedlaethol leol, genedlaethol ac uniongyrchol berthnasol fel y'i diwygir, eu hymestynnir neu eu hail-ddeddfu o bryd i'w gilydd a bydd yn cynnwys pob is-ddeddf a wneir o bryd i'w gilydd oddi tanynt a phob gorchymyn, hysbysiad, cod ymarfer a chanllaw a wneir oddi tanynt.
- 1.8 Oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn gyfeiriad ato fel y'i diwygiwyd, ei ymestyn neu ei ail-ddeddfu o bryd i'w gilydd a bydd yn cynnwys yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir o bryd i'w gilydd o dan y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno a'r holl orchmynion, hysbysiadau, codau ymarfer a chanllawiau a wneir oddi tano.
- 1.9 Nid yw cyfeiriad at **ysgrifennu** neu **ysgrifenedig** yn cynnwys ffacs nac e-bost.
- 1.10 Mae unrhyw rwymedigaeth ar barti i beidio â gwneud rhywbeth yn cynnwys rhwymedigaeth i beidio â chaniatáu i'r peth hwnnw gael ei wneud a rhwymedigaeth i wneud ei gorau glas i atal y peth hwnnw rhag cael ei wneud gan berson arall.
- 1.11 Mae cyfeiriadau at gymalau ac Atodlenni yn cyfeirio at gymalau ac Atodlenni'r drwydded hon ac mae cyfeiriadau at baragraffau yn cyfeirio at baragraffau'r Atodlen berthnasol.
- 1.12 Dylid dehongli unrhyw eiriau sy'n dilyn y termau gan gynnwys, cynnwys, yn benodol, er enghraifft neu unrhyw ymadrodd tebyg fel rhai darluniadol ac ni fyddant yn cyfyngu

ar ystyr y geiriau, y disgrifiad, y diffiniad, yr ymadrodd na'r term sy'n dod cyn y termau hynny.

- 1.13 **Diwrnod gwaith** yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, gŵyl banc nac yn ŵyl gyhoeddus yng Nghymru NEU Loegr.

## 2. TRWYDDED I DDEFNYDDIO

- 2.1 Yn amodol ar gymalau 3 a 4, mae'r Trwyddedwr yn caniatáu i'r Trwyddedai ddefnyddio'r Eiddo ar gyfer y Defnydd a Ganiateir am Gyfnod y Drwydded ar y cyd â'r Trwyddedwr a phawb arall a awdurdodwyd gan y Trwyddedwr (cyn belled nad yw'n anghyson â'r hawliau a roddir i'r Trwyddedai i ddefnyddio'r Eiddo ar gyfer y Defnydd a Ganiateir).

- 2.2 Mae'r Trwyddedai yn cydnabod:

- (a) bydd y Trwyddedai yn defnyddio'r Eiddo fel trwyddedai ac nad oes unrhyw berthynas landlord a thenant yn cael ei chreu rhwng y Trwyddedwr a'r Trwyddedai gan y drwydded hon;
- (b) mae'r Trwyddedwr yn cadw rheolaeth, meddiant a rheolaeth yr Eiddo ac nid oes gan y Trwyddedai hawl i eithrio'r Trwyddedwr o'r Eiddo;
- (c) mae'r drwydded i ddefnyddio a roddir gan y cytundeb hwn yn bersonol i'r Trwyddedai ac ni ellir ei drosglwyddo a dim ond y Trwyddedai a'i weithwyr all arfer yr hawliau a roddir yng nghymal 2; a
- (d) heb ragfarnu ei hawliau o dan gymal 4, bydd gan y Trwyddedwr hawl ar unrhyw adeg, ar ôl rhoi o leiaf 5 diwrnod o rybudd, i fynnu bod y Trwyddedai yn trosglwyddo i ofod arall yn rhywle arall.

## 3. RHWYMEDIGAETHAU'R TRWYDDEDAI

Mae'r Trwyddedai yn cytuno ac yn ymrwymo:

- (a) i dalu:
  - (i) i'r Trwyddedwr Ffi y Drwydded sy'n daladwy heb unrhyw ddidyniad ar ôl cwblhau'r drwydded hon;
- (b) arddangos graddfa o ffioedd yn glir ar yr Eiddo neu gerllaw yn ystod yr Oriau Dynodedig;
- (c) i gadw'r Eiddo'n lân, yn dactylus ac yn glir o sbwriel;
- (d) peidio â defnyddio'r Eiddo heblaw at y Defnydd a Ganiateir;
- (e) peidio â gwneud unrhyw newid nac ychwanegu o gwbl at yr Eiddo;
- (f) peidio gwneud na chaniatáu i unrhyw beth gael ei wneud ar yr Eiddo sy'n anghyfreithlon neu a allai fod neu ddod yn niwsans (boed yn achos cyfreithiol

ai peidio), yn annifyrrweh, yn anghyfleustra neu'n aflonyddwch i'r Trwyddedwr neu unrhyw berchennog neu feddiannwr eiddo neu dir cyfagos;

- (g) cadw offer a nwyddau'r Trwyddedai mewn cyflwr glân, diogel a defnyddiadwy bob amser;
- (h) cadw cyfleusterau storio'r Trwyddedai mewn cyflwr da ac wedi'u hatgyweirio bob amser;
- (i) peidio â chael unrhyw offer a nwyddau'r Trwyddedai wedi'u lleoli ar dir cyfagos y Trwyddedwr y tu allan i'r Oriau Dynodedig;
- (j) storio offer a nwyddau'r Trwyddedai yn ddiogel y tu allan i'r Oriau Dynodedig;
- (k) peidio ag achosi neu ganiatáu i unrhyw ddifrod gael ei achosi i:
  - (i) Yr Eiddo, neu unrhyw eiddo cyfagos; neu
  - (ii) unrhyw eiddo sy'n eiddo i berchnogion neu feddianwyr unrhyw eiddo cyfagos;
- (l) peidio gwneud unrhyw beth a fydd neu a allai fod yn torri unrhyw Ganiatâd Angenrheidiol sy'n effeithio ar yr Eiddo neu a fydd neu a allai ddifrodi, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, unrhyw yswiriant a roddir gan y Trwyddedwr mewn perthynas â'r Eiddo o bryd i'w gilydd;
- (m) i gydymffurfio ag unrhyw reolau a rheoliadau rhesymol y mae'r Trwyddedwr yn eu gwneud ac yn eu hysbysu i'r Trwyddedai o bryd i'w gilydd sy'n llywodraethu defnydd y Trwyddedai o'r Eiddo;
- (n) i adael yr Eiddo mewn cyflwr glân a thaclus a chael gwared ar ddodrefn, offer a nwyddau'r Trwyddedai o'r Eiddo ar ddiwedd Cyfnod y Drwydded;
- (o) cynnal yswiriant trydydd parti a sicrhau bod ganddynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyda gorchudd o ddim llai na DEG MILIWN O BUNNAU (£10,000,000.00) ac yswiriant atebolrwydd cyflogwr gyda gorchudd o ddim llai na DEG MILIWN O BUNNAU (£10,000,000.00) a rhaid iddynt gyflwyno copi i'r Trwyddedwr ar gais rhesymol;
- (p) i indemnio'r Trwyddedwr a chadw'r Trwyddedwr wedi'i indemnio rhag pob colled, hawliad, galw, gweithred, achos, difrod, cost, treuliau neu atebolrwydd arall mewn unrhyw ffordd sy'n deillio o:
  - (i) y drwydded hon;
  - (ii) unrhyw dorri ymrwymadau'r Trwyddedai a gynhwysir yng nghymal 3; a/neu
  - (iii) arfer unrhyw hawliau a roddir yn y cymal 2;
- (q) talu i'r Trwyddedwr swm sy'n hafal i'r costau a'r treuliau rhesymol a phriodol y bydd y Trwyddedwr yn eu dioddef o ganlyniad i unrhyw dorri gan y Trwyddedai o'i rwymedigaethau yn y Drwydded hon ar yr amod bod y Trwyddedwr yn hysbysu'r Trwyddedai o unrhyw hawliadau o'r fath, nad yw'n

setlo hawliadau o'r fath heb ystyried cynrychioliadau rhesymol y Trwyddedai ac yn gwneud ymdrechion rhesymol i liniaru ei golled;

- (r) talu llog i'r Trwyddedwr ar y Ffi Drwydded neu daliadau eraill ar gyfradd o 10 y cant y flwyddyn uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Barclays o bryd i'w gilydd a gyfrifir yn ddyddiol o'r dyddiad dyledus hyd at y taliad os bydd y Trwyddedai yn methu â thalu'r Ffi Drwydded neu unrhyw daliadau eraill sy'n ddyledus o dan y drwydded hon o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad dyledus (p'un a yw wedi'i fynnu'n ffurfiol ai peidio)

#### **4. TERFYNU**

4.1 Bydd y drwydded hon yn dod i ben ar y cynharaf o:

- (a) 31ain Hydref 2028 **NEU**;
- (b) dod i ben unrhyw hysbysiad a roddir gan y Trwyddedwr i'r Trwyddedai ar unrhyw adeg o dorri unrhyw un o rwymedigaethau'r Trwyddedai a gynhwysir yng nghymal 3 **NEU**;
- (c) diwedd cyfnod o ddim llai na 14 diwrnod o rybudd a roddir gan y Trwyddedwr i'r Trwyddedai neu gan y Trwyddedai i'r Trwyddedwr.

4.2 Ni fydd terfynu'r drwydded hon yn effeithio ar hawliau'r naill barti na'r llall mewn cysylltiad ag unrhyw dorri unrhyw rwymedigaeth o dan y drwydded hon a oedd yn bodoli ar neu cyn dyddiad y terfynu.

#### **5. HYSBYSIADAU**

5.1 Rhaid i unrhyw hysbysiad neu gyfathrebiad arall a roddir o dan y drwydded hon fod yn ysgrifenedig a rhaid ei ddanfôn â llaw neu ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf wedi'i dalu ymlaen llaw neu wasanaeth dosbarthu drannoeth arall i'r parti perthnasol fel a ganlyn:

- (a) i'r Trwyddedwr yn: Cyngor Gwynedd ac wedi'i farcio at sylw'r Rheolwr Gwasanaeth Morwrol; a
- (b) i'r Trwyddedai ar: **i'w gadarnhau.**

5.2 Ystyrir bod unrhyw hysbysiad neu gyfathrebiad arall a roddir yn unol â chymal 5.1 wedi'i dderbyn:

- (a) os caiff ei ddanfôn â llaw, ar ôl llofnodi derbynneb danfon neu ar yr adeg y gadewir yr hysbysiad neu gyfathrebiad arall yn y cyfeiriad cywir; neu
- (b) os caiff ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf wedi'i dalu ymlaen llaw neu wasanaeth dosbarthu nesaf arall, am 9.00 am ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl postio.

- 5.3 Ni fydd hysbysiad na chyfathrebiad arall a roddir o dan y drwydded hon yn ddilys os caiff ei anfon drwy e-bost.
- 5.4 Nid yw'r cymal hwn yn berthnasol i gyflwyno unrhyw achos cyfreithiol na dogfennau eraill mewn unrhyw achos cyfreithiol nac, lle bo'n berthnasol, unrhyw gyflafareddu na dull arall o ddatrys anghydfodau.

## **6. COSTAU**

Ar gwblhau'r Drwydded hon, bydd y Trwyddedai yn talu i'r Trwyddedwr ar sail indemniad llawn yr holl gostau, ffioedd, taliadau a threuliau a threuliau'r Trwyddedwr a'u cynghorwyr proffesiynol a gafwyd mewn perthynas â negodi a chwblhau'r drwydded hon, ynghyd â swm sy'n cyfateb i TAW arnynt ac eithrio i'r graddau y mae'r Trwyddedwr yn gallu adennill y TAW hwnnw.

## **7. DIM GWARANTAU AR GYFER DEFNYDD NA CHYFLWR**

- 7.1 Nid yw'r Trwyddedwr yn rhoi unrhyw warant bod gan yr Eiddo y Caniatâd Angenrheidiol ar gyfer y Defnydd a Ganiateir.
- 7.2 Nid yw'r Trwyddedwr yn rhoi unrhyw warant bod yr Eiddo'n addas yn gorfforol at y dibenion a bennir yn y cymal 2.
- 7.3 Mae'r Trwyddedai yn cydnabod nad yw'n dibynnu ar, ac na fydd ganddo unrhyw rwymedïau mewn perthynas â, unrhyw gynrychiolaeth neu warant (p'un a wnaed yn ddiniwed neu'n esgeulus) a allai fod wedi'i gwneud gan neu ar ran y Trwyddedwr cyn dyddiad y drwydded hon ynghylch unrhyw un o'r materion a grybwyllir yng nghymal 7.1 neu gymal 7.2.
- 7.4 Ni fydd dim yn y cymal hwn yn cyfyngu nac yn eithrio unrhyw atebolrwydd am dwyll.

## **8. CYFYNGIAD ATEBOLRWYDD Y TRWYDDEDWR**

- 8.1 Yn amodol i gymal 8.2, nid yw'r Trwyddedwr yn atebol am:
- (a) marwolaeth, neu anaf i'r Trwyddedai, ei weithwyr, ei gwsmeriaid neu wahoddedigion i'r Eiddo; neu
  - (b) difrod i unrhyw eiddo'r Trwyddedai neu eiddo gweithwyr, cwsmeriaid neu wahoddedigion eraill y Trwyddedai i'r Eiddo; neu
  - (c) unrhyw golledion, hawliadau, gofynion, camau gweithredu, achosion cyfreithiol, difrod, costau neu dreuliau neu atebolrwydd arall a achosir gan y Trwyddedai neu weithwyr y Trwyddedai, cwsmeriaid neu wahoddedigion eraill i'r Eiddo wrth arfer neu honni eu bod yn arfer yr hawliau a roddir gan gymal 2.

8.2 Ni fydd dim yng nghymal 8.1 yn cyfyngu nac yn eithrio atebolrwydd y Trwyddedwr am:

- (a) marwolaeth neu anaf personol neu ddifrod i eiddo a achosir gan esgeulustod ar ran y Trwyddedwr neu ei weithwyr neu ei asiantau; neu
- (b) unrhyw fater y byddai'n anghyfreithlon i'r Trwyddedwr eithrio neu gyfyngu atebolrwydd mewn perthynas ag ef.

## 9. HAWLIAU TRYDYDD PARTI

Ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r drwydded hon unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 i orfodi unrhyw delerau o'r drwydded hon.

## 10. CYFRAITH LYWODRAETHOL

Bydd y drwydded hon ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio ohoni neu mewn cysylltiad â hi neu ei phwnc neu ei ffurfiant (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau anghytundebol) yn cael eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr.

## 11. AWDURDODAETH

1. Mae pob parti yn cytuno'n ddiwrthdro y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth unigryw i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio o'r drwydded hon neu ei phwnc neu ei ffurfiant neu mewn cysylltiad â hi (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau anghytundebol).

Mae'r drwydded hon wedi'i gwneud ar y dyddiad a nodir ar ei dechrau.

Wedi ei lofnodi gan ac ar ran

Cyngor Gwynedd:-

.....  
Llofnodwr Awdurdodedig

Llofnodwyd gan \*i'w  
gadarnhau\*:-

ym mhresenoldeb:

Llofnod y Tyst:

Cyfeiriad y Tyst: